

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod:	24 Ionawr, 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones
Swyddog Cyswllt:	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC
Rhif Ffôn Cyswllt:	32400
Teitl yr Eitem:	Cynllun Fflyd Werdd

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Fod y Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (a weler yn Atodiad 1) a chytuno:
- fod Adrannau'r Cyngor ddim i brynu, adnewyddu, neu waredu unrhyw gerbyd cyn yn gyntaf trafod ei anghenion gyda'r Rheolwr Fflyd, a chael ei gydsyniad;
  - fod angen creu system pŵl corfforaethol yn lle rhai Adrannol;
  - fod y Rheolwr Fflyd i arwain ar y gwaith o chwynnu'r stoc bresennol o gerbydau'r Cyngor, a chreu strwythur cerbydau i bob Adran.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru), Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (Llywodraeth Cymru) a Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029-2030 Cyngor Gwynedd.
- 2.2 Nod y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 yw i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd Fflyd y Cyngor.
- 2.3 Rhoddir trosolwg o'r dulliau ariannu posib o fewn rhan 6.2 o'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (Atodiad 1). Mae'r wybodaeth ariannol ar gyfer y sefyllfa waethaf ac yn debygol na fyddai angen adnewyddu'r fflyd gyfan a gellir gwaredu rhai yn dilyn y gwaith chwynnu.

### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Cyflwynwyd adroddiad drafft yn amlinellu gweledigaeth y Gwasanaeth Fflyd ger bron y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur ar y 14 o Dachwedd 2022.
- 3.2 Yn dilyn y cyfarfod hwn, cytunwyd byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth.

3.3 Mae cyfle i newid nifer o gerbydau drwy'r broses 'chwynnu' Fflyd y Cyngor ac edrych ar sgôp i leihau nifer o gerbydau fflyd ar hyn o bryd.

#### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1 Yn ystod Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Argyfwng Newid Hinsawdd ac arweiniodd hyn at Gabinet y Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fis Mawrth 2022.

4.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030" sy'n cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon sero net erbyn y dyddiad hwn.

4.3 Gan ddefnyddio data am ein hallyriadau, mae'n darlunio'r dasg anodd sy'n ein hwynebu i drawsffurfio ein Fflyd.

4.4 Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu'r cynllun o ddatgarboneiddio'r fflyd gan ffocysu ar y tri prif them amlinellir o fewn y Cynllun Fflyd Werdd sef Chwynnu, Arloesi ac Adnewyddu.

4.5 Mae'n bwysig nodi bod cryn waith i'w gyflawni a gall unrhyw oedi amharu ar ein rhaglen o gyrraedd ein nod.

#### **5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015.**

5.1 Mae dyletswydd i wireddu 'Cymru Lewyrchus' fel rhan o'r ddeddf hon sydd yn edrych yn benodol ar greu cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd).

5.2 Mae cost yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon, ond rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn a'r gost uwch o lawer a fyddai'n deillio o wneud dim byd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn allweddol felly i'r modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n mynd i'r afael â'r heriau hyn. Trwy roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith a chyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol ar Lefel Byd-eang, gallwn ddangos ei gyfraniad tuag at ymateb i argyfwng yr hinsawdd.

5.3 Mae'r Cynllun Fflyd Werdd yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

#### **6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1 Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r camau o fewn y Cynllun Fflyd Werdd 2023-23 yn ogystal â'r argymhellion nodir o fewn 3.3.

## **7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Amlygir yn yr adroddiad a'r Cynllun fod y cynigion yma yn cynrychioli cam pwysig i gyfarch dyletswyddau ac amcanion y Cyngor o safbwynt cynaliadwyedd a lleihau carbon. 'Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniadau a geisir.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Mae Rhan 7 o'r Cynllun Fflyd Werdd yn nodi bydd angen i'r Gwasanaeth Fflyd gydweithio gyda'r Adran Cyllid ar wahanol agweddau ariannol y cynllun a buaswn yn ategu mai amcangyfrifon sydd yn ymddangos yn y cynllun ar hyn o bryd. Bydd gwaith pellach ei angen ac rwyf yn disgwyl bydd hyn yn digwydd yn fuan os bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet.